OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 1175 (Cy. 206)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 9, Gwynedd) a Chefnffordd yr A487 (Ffordd Gyswllt rhwng Cylchfan Parc Menai a Chylchfan Ffordd Treborth, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019

Gwnaed	*22 Gorffennaf 2019*
Yn dod i rym	*26 Gorffennaf 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A55 a'r A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 9, Gwynedd) a Chefnffordd yr A487 (Ffordd Gyswllt rhwng Cylchfan Parc Menai a Chylchfan Ffordd Treborth, Gwynedd) (Gwahardd

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 26 Gorffennaf 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a chefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)** neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 ar 26 Gorffennaf 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Gorffennaf 2019

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Sheena Hague
Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 9.

2. Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 9.

3. Y darn cyfan o gefnffordd yr A487 rhwng Cylchfan Parc Menai a Chylchfan Ffordd Treborth gan gynnwys rhan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Parc Menai.